Joio 'Steddfod!

Dwi 'di gweld y fflagiau lliwgar,
Dwi 'di gwlychu yn y glaw,
Dwi 'di clywed corau'n canu,
Dwi 'di ogla'r mwd a'r baw!
Dwi 'di cael pei Stwnsh yn fy ngwyneb!
Ych a fi!

Clywais sŵn BZ BZ y piffgwn
O na, plis paid pigo fi!
Dwi 'di casglu LLWYTH o ffrîbîs
A sticeri, a chael hwyl
Ar y weiren zip hip hip hwre!

A chael mwstash mawr glas a blasus
Ar ôl yfed slysh i de!
Mae gwair yn sychu'n ogla braf,
Dyna ogla melys ganol haf.
Dwisho uncorn gwyn mewn welis
Efo cynffon liwgar – un am ddim!

A dillad pinc a theisen siocled
A beic (a welis) i fynd yn chwim!
Boing boing boing y bownsi hopars,
Lan i'r gofod un dau tri!

Dod ag êliyn lawr i'r steddfod
Iddo fo gael hwyl a sbri!
Hwla hwps a phlatiau troelli
Yn y syrcas rownd a rownd.

Eistedd nôl a mwynhau
Y sioe wyddoniaeth a chreu slwtsh,
A daeth pili pala heibio
I weld ni'n creu cerdd cwtsh!
'Da ni gyd 'di joio steddfod,
A dyna ddiwedd y gerdd!

Gan Gruffudd Owen a chriw o blant Cymru
(Eisteddfod Sir Conwy 2019)